

## **Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ffurflenni Llys Teulu**

### **Diben**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn pennu'r safonau y gallwch eu disgwyl gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) pan fyddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol ('data personol') amdanoch chi yng nghyd-destun achos llys teulu; sut gallwch gael gafael ar gopi o'ch data personol; a beth allwch ei wneud os ydych yn teimlo nad yw'r safonau'n cael eu bodloni.

Mae GLITEM yn un o asiantaethau gweithredol MoJ. MoJ yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol a gedwir, er gall weithredu ar y cyd gyda GLITEM. Mae GLITEM hefyd yn casglu a phrosesu data personol er mwyn gweithredu ei swyddogaethau ei hun a swyddogaethau cyhoeddus cysylltiedig a'i rwymedigaethau cyfreithiol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol o ran prosesu data sy'n cael ei gasglu a'i reoli gan y llys teulu (a'i farnwyr) yn ystod achos cyfreithiol. Mae'r farnwriaeth yn annibynnol o'r MoJ a GLITEM ac mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn ei heffeithio'n wahanol o ganlyniad i hyn. Am ragor o wybodaeth, ewch i [www.judiciary.gov.uk](http://www.judiciary.gov.uk)

### **Ynghylch data personol**

Data personol yw gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o'r data hwnnw.

Nid yw'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl sydd wedi marw, grwpiau neu gymunedau o bobl, sefydliadau neu fusnesau. Gall gynnwys eich enw, eich cyfeiriad neu eich rhif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am eich rhywedd, eich amgylchiadau ariannol, eich cefndir diwylliannol neu eich statws cymdeithasol.

Gwyddwn ei fod yn hynod bwysig i ddiogelu preifatrwydd bob unigolyn sy'n rhan o achos llys a chydymffurfio â deddfau diogelu data. Byddwn yn diogelu eich data personol a byddwn ond yn ei ddatgelu pan fydd yn gyfreithiol i wneud hynny neu gyda'ch caniatâd chi.

### **Mathau o ddata personol rydym yn ei brosesu**

Rydym ond yn prosesu data personol sy'n berthnasol ar gyfer bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac er mwyn gweinyddu cyfiawnder. Gall y mathau o ddata a gasglir trwy ffurflenni llys gynnwys: eich enw, eich cyfeiriad, eich manylion cyswllt, eich amgylchiadau economaidd, ethnigrwydd, credoau crefyddol a manylion unrhyw unigolion eraill, gan gynnwys plant y mae'r achos yn ymwneud â hwy, neu'r rhai y gall fod ganddynt ddi-ddordeb yn yr achos.

Bydd y data personol fel arfer yn cael ei gasglu yn uniongyrchol gennych chi neu gan unigolyn arall sydd wedi cynnwys eich data mewn ffurflen llys maent wedi'i llenwi. Gellir cael eich data personol hefyd o ffynonellau eraill yn ystod yr achos, er enghraifft gan sefydliadau proffesiynol fel Awdurdod Lleol, ysgol, Cafcass, Cafcass Cymru neu barti arall i'r achos.

## **Pwrpas prosesu data a'r sail gyfreithiol dros brosesu**

Mae'n rhaid i ni brosesu data personol at ddibenion gweinyddu cyfiawnder ac i gefnogi'r farnwriaeth annibynnol wrth gynnal y gyfraith a darparu cyfiawnder yn ddiduedd, yn gyflym ac yn effeithlon. Mae prosesu hefyd yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Cesglir a chedwir y data personol sydd ei angen at y diben hwn mewn ffurflenni llys. Mae hefyd yn cael ei uwchlwytho i gronfa ddata y llys, gan gefnogi'r broses o weinyddu cyfiawnder mewn achos llys. Defnyddir y gronfa ddata gan staff y llys i reoli achosion a chasglu gwybodaeth o ansawdd da am gynnydd achos.

Mae ffurflenni'r llys ar gael yma: [www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-llysoedd-a-thribiwnlysoedd](http://www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-llysoedd-a-thribiwnlysoedd)

Pennir y ffurflenni hyn dan Reolau Trefniadaeth Teulu 2010 ('Y Rheolau') i'w defnyddio mewn achosion teulu a galluogi rheoli achosion yn effeithiol yn y Llys Teulu neu Adran Teulu yr Uchel Lys ('y llys'). Yn gyffredinol, defnyddir y ffurflenni i gychwyn achos neu i bennu camau gweithredu o fewn achos presennol ac mae'r wybodaeth a ddarperir yn galluogi'r llys i gyflwyno cyfiawnder a gwneud penderfyniadau pwysig. Fel yr esboniwyd uchod, mae deddfau diogelu data yn berthnasol i'r llys mewn ffordd wahanol pan fydd data personol yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio yn ystod achos.

Rydym hefyd yn prosesu data personol a gafwyd mewn achosion llys teulu at ddibenion ystadegol. Mae'r data personol yn ddienw ac fe'i ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau chwarterol ar weithgaredd llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr. Weithiau, mae GLITEM yn defnyddio gwybodaeth gyswllt i ofyn i ddefnyddwyr y llys os hoffent lenwi arolwg gwasanaeth cwsmer er mwyn mesur bodlonrwydd defnyddwyr y llys a llywio meysydd i'w gwella.

### **Pan fyddwn yn gofyn i chi am ddata personol, byddwn:**

- yn addo rhoi gwybod ichi pam bod angen eich data personol arnom
- ond yn gofyn am y data personol sydd ei angen arnom a pheidio â chasglu gwybodaeth sy'n amherthnasol neu'n ormodol
- yn diogelu'r data a sicrhau nad oes neb heb awdurdod yn cael hawl i'w weld
- yn ei rannu gyda sefydliadau eraill o bosib; ond pan fo'n angenrheidiol gwneud hynny ac fe ganiateir gan y gyfraith (gweler isod)
- yn sicrhau nad ydym yn ei gadw'n hirach na sydd angen

Gallwch:

- wneud cais i gael mynediad at eich data personol neu wneud cais iddo gael ei gywiro
- gwrthwynebu ein bod yn prosesu eich data personol a gofyn i'r prosesu gael ei gyfyngu
- cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler isod).

### **Y sawl y gall yr wybodaeth gael ei rhannu â hwy**

Bydd yr wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni yn cael ei rhannu gyda'r partïon eraill sy'n rhan o'r achos, gan gynnwys eu cynrychiolwyr cyfreithiol (ac fel arfer, dan y Rheolau, mae gofyn ichi

roi'r wybodaeth honno iddynt eich hun, yn aml trwy anfon copi o'r ffurflen atynt: gweler y ffurflenni penodol a'r Rheolau am ragor o fanylion).

Ni fydd yr wybodaeth rydych yn ei rhoi inni yn cael ei rhannu gyda rhywun nad yw'n barti i'r achos oni bai ei fod yn cael ei orchymyn yn benodol gan y llys neu fod y Rheolau yn ei ganiatáu. Mae yna reolau llym o ran pryd all gwybodaeth am achosion teulu gael ei datgelu y tu allan i'r achos. Nid yw'r math hwn o brosesu data personol gan lys yn dod o dan yr hysbysiad preifatrwydd hwn gan ei fod yn cael ei gynnal yn gyffredinol gan y farnwriaeth annibynnol.

Pan fydd yn ofynnol i ni rannu data personol byddwn yn cydymffurfio â phob agwedd o'r rheolau, gan gynnwys deddfau diogelu data. Gall categorïau'r sefydliadau efallai y bydd yn ofynnol inni rannu eich data personol â hwy, sef y data a gasglwyd gan ffurflenni llys teulu, gynnwys asiantaethau sydd wedi'u contractio gan GLITEM (e.e. cyfieithwyr ar y pryd, canolwyr, asiantaethau trawsgrifio neu gyfieithu), adrannau eraill y Llywodraeth, neu lysoedd ac awdurdodau cyhoeddus o fewn neu y tu allan i'r UE.

Mae achosion teulu yn cael eu gwrando yn breifat fel rheol, sy'n golygu mai dim ond y bobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achos sy'n cael bod yn bresennol yn yr ystafell llys. Fodd bynnag, mae gan gynrychiolwyr y cyfryngau achrededig ganiatâd i fynychu rhai gwrandawriadau penodol a chlywed gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae yna fesurau diogelwch mewn lle sy'n cyfyngu ar beth all gael ei riportio yn y cyfryngau. Dim ond gyda chaniatâd y llys y caiff unrhyw unigolyn arall fod yn bresennol yn yr ystafell llys.

### **Manylion trosglwyddiadau i drydydd gwledydd**

Weithiau bydd rhaid trosglwyddo data personol i wlad dramor er mwyn sefydlu, ymarfer, neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol. Bydd y rheswm dros drosglwyddo a pha drydedd wlad sy'n cael yr wybodaeth wastad yn ddibynnol ar amgylchiadau'r achos, ond bydd unrhyw drosglwyddiadau o'r fath yn cael eu gwneud gan gydymffurfio'n llawn â bob agwedd ar y gyfraith (mae 'trydedd wlad' yn golygu gwlad y tu allan i'r UE).

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â ni drwy anfon e-bost i [privacy@justice.gov.uk](mailto:privacy@justice.gov.uk)

### **Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gesglir**

Cyfarwyddir i adrannau'r Llywodraeth, asiantaethau a phob corff sector cyhoeddus arall i gadw unrhyw a phob darn o ddogfennaeth; gohebiaeth; nodiadau; negeseuon e-bost ac unrhyw wybodaeth arall (mewn unrhyw ffurf) sy'n cynnwys neu a all gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â cham-drin plant yn rhywiol neu sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu ofal plant. Mae'r gair 'plant' yn cyfeirio at unrhyw unigolyn sydd dan 18 oed.

Mae cyfnodau cadw gwahanol yn berthnasol yn seiliedig ar y math o achos rydych yn ymwneud ag ef. I ddod o hyd i'r cyfnodau cadw ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i chi, ewch i:

[www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules](http://www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules)

## **Mynediad at wybodaeth bersonol**

Gallwch ganfod os oes gennym unrhyw ddata personol amdanoch drwy wneud 'cais gwrthrych am wybodaeth'. Gallwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth drwy anfon e-bost i: [Data.access@justice.gov.uk](mailto:Data.access@justice.gov.uk)

### **Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch:**

- Cytundebau sydd gennym gyda sefydliadau eraill ar gyfer rhannu data
- Amgylchiadau lle gallwn drosglwyddo'ch data personol heb roi gwybod i chi, er enghraifft, i'n helpu i atal neu ddatgelu troseddau neu gynhyrchu ystadegau dienw
- Ein cyfarwyddiadau i staff ynghylch sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eichdata personol
- Sut rydym yn sicrhau bod y data personol sydd gennym yn gywir ac yn gyfredol
- Sut i wneud cwyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y materion uchod neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data drwy anfon e-bost i: [privacy@justice.gov.uk](mailto:privacy@justice.gov.uk)

## **Cwynion**

Pan ofynnwn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw at y gyfraith. Os ydych yn teimlo bod yr wybodaeth wedi cael ei thrin yn anghywir gan MoJ neu GLITEM, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar ddiogelu data. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Swydd Gaer  
SK9 5AF  
Ffôn: 0303 123 1113  
[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)